

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 No. 1275

**Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o
Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008**

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 3 Mehefin 2008.

Dehongli cyffredinol

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “anifail” (“*animal*”) yw unrhyw famal;

ystyr “anifeiliaid hela gwyllt” (“*wild game*”) yw anifail gwyllt sy'n cael ei hela i'w fwyta gan bobl;

ystyr “arolygydd” (“*inspector*”) yw arolygydd a benodwyd felly gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdod lleol at ddibenion y Rheoliadau hyn neu'r Ddeddf ac, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae'n cynnwys arolygydd milfeddygol;

ystyr “arolygydd milfeddygol” (“*veterinary inspector*”) yw person a benodwyd yn arolygydd o'r fath gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Rheoliadau hyn neu'r Ddeddf;

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) mewn perthynas ag ardal yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

ystyr “canolfan driniaeth” (“*treatment centre*”) yw mangre a ddynodwyd o dan reoliad 5 at ddibenion trin cig o dan un o'r triniaethau a restrir yn Atodlen 2;

mae “cerbyd” (“*vehicle*”) yn cynnwys—

(a) trelar, lled-drelar neu rywbeth arall a ddyluniwyd neu a addaswyd i gael ei dynnu gan gerbyd arall;

(b) rhan o unrhyw gerbyd y gellir ei datgysylltu;

(c) cynhwysydd neu strwythur arall a ddyluniwyd neu a addaswyd ar gyfer ei gario ar gerbyd;

ystyr “cig” (“*meat*”) yw unrhyw ran o garcas naill ai anifail neu ddofedyn a fwriadwyd ar gyfer ei fwyta gan bobl, ac mae'n cynnwys cynnyrch sy'n deillio o brosesu cig o'r anifail neu'r dofedyn hwnnw neu gynnrych sy'n deillio o brosesu pellach y cyfryw gynnrych cig a broseswyd;

ystyr “cigydda” (“*slaughter*”) yw lladd ar gyfer cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl ond nid yw'n cynnwys lladd anifeiliaid hela gwyllt;

ystyr “clefyd” (“*disease*”) yw unrhyw un o'r canlynol: clwy clasurol y moch; clwy Affricanaidd y moch; clefyd pothellog y moch; rinderpest; pla'r defaid a'r geifr, clefyd Newcastle;

ystyr “cyflenwi” (“*supply*”) yw cyflenwi i'r defnyddiwr olaf neu i berson sydd wedyn yn cyflenwi i'r defnyddiwr olaf ac mae'n cynnwys llwyth ar gyfer ei werthu;

ystyr “deddfwriaeth clefydau” (“*disease legislation*”) yw unrhyw ddeddfwriaeth a restrir yn Atodlen 1;

ystyr “dofednod” (“*poultry*”) yw pob rhywogaeth o ddofednod a fegir neu a gedwir mewn caethiwed ar gyfer cynhyrchu cig neu wyau i'w bwyta gan bobl, cynhyrchu cynhyrchion masnachol eraill i'w bwyta gan bobl, ailstocio cyflenwadau o anifeiliaid hela neu at ddibenion unrhyw raglen fridio ar gyfer cynhyrchu'r categorïau hyn o adar;

ystyr “dyddiad perthnasol” (“*relevant date*”) yw'r dyddiad y cadarnhawyd bod clefyd mewn mangre heintiedig neu mewn sefydliad neu ddyddiad yr heintiad cynharaf os bydd Gweinidogion Cymru yn pennu dyddiad o'r fath;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1);

ystyr “lladd-dy” (“*slaughterhouse*”) yw sefydliad lle y mae cigydd a thrin unrhyw anifail neu ddofednyn yn digwydd;

ystyr “mangre” (“*premises*”) yw unrhyw dir, adeilad neu le a ddefnyddir mewn busnes, heblaw lladd-dy neu sefydliad trin anifeiliaid hela;

ystyr “meddiannydd” (“*occupier*”), o ran unrhyw fangre neu sefydliad, yw'r person sydd â gofal am y fangre honno neu'r sefydliad hwnnw;

ystyr “sefydliad” (“*establishment*”) yw lladd-dy neu sefydliad trin anifeiliaid hela; ac

ystyr “sefydliad trin anifeiliaid hela” (“*game handling establishment*”) yw sefydliad lle y paratwir carcasau anifeiliaid hela gwyllt.

Anifail, dofednod a chig dan gyfyngiadau: diffiniadau

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, “anifail dan gyfyngiadau” (“*restricted animal*”) yw anifail—

(a) sydd ar, mewn neu o—

- (i) mangre dan amheuaeth;
- (ii) sefydliad lle yr amheuir bod clefyd yno;
- (iii) mangre heintiedig;
- (iv) sefydliad lle y cadarnheir bod clefyd yno;
- (v) ardal heintiedig;
- (vi) parth gwarchod; neu
- (vii) parth goruchwyllo; a

(b) o rywogaeth a allai gael y clefyd y gosodwyd cyfyngiadau ynglŷn â hi o dan ddeddfwriaeth clefydau.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, “dofednod dan gyfyngiadau” (“*restricted poultry*”) yw dofednod sydd ar, mewn neu o unrhyw un o'r canlynol o dan Orchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003(2)—

- (a) mangre dan amheuaeth;
- (b) lladd-dy lle yr amheuir bod clefyd yno;
- (c) mangre heintiedig;

(1) 1981, p. 22, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, p. 42, O.S. 1992/3293, 2003/1734 a 2006/182.

(2) O.S. 2003/1079 (Cy.148).

- (ch) lladd-dy lle y cadarnheir bod clefyd yno;
- (d) ardal heintiedig;
- (dd) parth gwarchod; neu
- (e) parth gwyliadwriaeth.

(3) “Mangre dan amheuaeth” (“*suspect premises*”) yw mangre lle y mae cyfyngiadau symud ar waith o dan ddeddfwriaeth clefydau oherwydd amheuir bod clefyd yno.

(4) “Mangre heintiedig” (“*infected premises*”) yw mangre lle y cadarnhawyd bod clefyd yno o dan ddeddfwriaeth clefydau.

(5) “Ardal heintiedig” (“*infected area*”) yw ardal sy'n dwyn yr enw hwn drwy ddatganiad gan Weinidogion Cymru o dan ddeddfwriaeth clefydau yn dilyn cadarnhad o glefyd.

(6) “Parth gwarchod” (“*protection zone*”) yw ardal sy'n dwyn yr enw hwn drwy ddatganiad gan Weinidogion Cymru o dan ddeddfwriaeth clefydau yn dilyn cadarnhad o glefyd.

(7) “Parth goruchwyllo” (“*surveillance zone*”) yw ardal sy'n dwyn yr enw hwn drwy ddatganiad gan Weinidogion Cymru o dan ddeddfwriaeth clefydau yn dilyn cadarnhad o glefyd.

(8) “Cig dan gyfyngiadau” (“*restricted meat*”) yw cig a gynhyrchwyd o'r dyddiad perthnasol o anifail dan gyfyngiadau neu o ddofednod dan gyfyngiadau o ardal heintiedig, parth gwarchod neu barth goruchwyllo na chafodd ei drin yn unol ag Atodlen 2 mewn canolfan driniaeth, ac mae'n cynnwys cig a ddaeth i gyffyrddiad â'r cyfryw gig.

Hysbysiadau

- 4. O ran hysbysiadau o dan y Rheoliadau hyn—
 - (a) rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig; a
 - (b) ceir eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu drwy hysbysiad pellach ar unrhyw adeg.

Dynodi mangreoedd, lladd-dai a sefydliadau trin anifeiliaid hela

5.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddynodi unrhyw sefydliad neu fangre at ddibenion cigydd a anifeiliaid neu ddofednod, neu dorri, paratoi, prosesu, pacio, lapio, storio neu drin cig.

- (2) O ran dynodi o dan y Rheoliadau hyn—
 - (a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;
 - (b) caiff fod yn ddarostyngedig i amodau; ac
 - (c) ceir ei ddiwygio, ei atal neu ei ddirymu drwy hysbysiad.

(3) Mae mangreoedd a sefydliadau a ddynodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban neu Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon ar gyfer yr un dibenion ag y ceir eu dynodi o dan y Rheoliadau hyn yn fangreoedd neu'n sefydliadau dynodedig at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, mae “dynodedig” (“*designated*”) yn cyfeirio at fangreoedd a sefydliadau sy'n ddynodedig o dan y rheoliad hwn.

Cyfyngiadau ynghylch symudiadau o Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon

6.—(1) Oni fydd Gweinidogion Cymru'n cyfarwyddo fel arall, mae mesurau yn y Rheoliadau hyn sy'n gymwys o ran unrhyw beth a symudir o unrhyw fangreoedd, sefydliadau, ardaloedd neu barthau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3 hefyd yn gymwys o ran symudiad o'r fath o unrhyw fangre, sefydliad, ardal neu barth cyfatebol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ond dim ond os yw'r person y mae'r mesur yn gymwys iddo yn ymwybodol neu os dylai'n rhesymol fod wedi bod yn ymwybodol bod y symud o fangre, sefydliad, ardal neu barth o'r fath.